# Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Seithfed Senedd

## Ynghylch Llais

Mae Llais yn gorff statudol annibynnol sy'n adlewyrchu safbwyntiau pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn cynrychioli eu buddiannau yng ngwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel y gellir clywed llais pawb, a'i ddefnyddio i lywio cynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb.

Rydym yn:

- estyn allan i glywed gan bobl yn ein cymunedau lleol drwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Gwneir hyn fel bod pobl yn gwybod ac yn deall hyn ac rydym yn ei wneud, ac i gasglu eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â lleoliadau lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- defnyddio'r hyn a glywn i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall yn well sut mae'r rhai hynny sydd angen ac

> yn defnyddio gwasanaethau yn teimlo bod y gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddynt. Rydym yn helpu sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gweithredu i wella pethau lle bo angen gwneud hynny.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddant yn ystyried newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau, fel bod pobl a chymunedau'n gallu dweud eu dweud o'r dechrau; a darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion rhad ac am ddim, annibynnol a chyfrinachol i helpu pobl i nodi eu pryderon ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ein hymateb

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'n fras nifer o'r materion gwasanaeth-benodol yr ydym yn eu clywed amlaf gan bobl ledled Cymru, gan gynnwys amseroedd aros, gofal brys ac argyfwng, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, cymorth i ofalwyr, atal a lleihau anghydraddoldebau.

Fodd bynnag, mae'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym yn awgrymu bod rhai o'r heriau a'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol yn bodoli ymhlith y blaenoriaethau hyn: ar y ffiniau rhwng gwasanaethau a sefydliadau; yn y ffordd y mae pobl yn llywio'r system; yn y graddau y mae profiadau pobl yn dylanwadu ar benderfyniadau; ac yn y graddau y mae gwelliannau a adroddir gan sefydliadau yn trosglwyddo i gynnig profiadau gwell i bobl.

Felly, rydym yn annog y Pwyllgor nid yn unig i archwilio gwasanaethau unigol a blaenoriaethau polisi, ond hefyd i graffu ar yr hyn sy'n digwydd

rhyngddynt ac a yw gwelliant yn weladwy ym mhrofiadau pobl, yn enwedig ymhlith cymunedau a grwpiau sydd eisoes yn profi mynediad a chanlyniadau gwaeth.

## Sut mae pobl yn profi ffiniau, cydlynu ac atebolrwydd

Mae llawer o'r anawsterau y mae pobl yn eu hadrodd wrthym yn y ffiniau hynny rhwng gwasanaethau, sefydliadau neu systemau. Mae hyn yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gwasanaethau plant ac oedolion, ynghyd a gofal rhanbarthol, gofal arbenigol, gofal a gomisiynir a gofal trawsffiniol.

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod weithiau'n ansicr pwy sy'n gyfrifol am eu gofal, yn derbyn gwybodaeth sy'n gwrthdaro, neu'n gorfod llywio ffiniau gwasanaethol neu sefydliadol heb gymorth clir. Mae asesiadau Gofal Iechyd Parhaus, trefniadau rhyddhau a mynediad at wasanaethau arbenigol yn enghreifftio'r heriau hyn yn aml.

Mae llawer o'r pryderon a godir gyda ni hefyd yn ymwneud â'r profiad dydd i ddydd o lywio gofal. Mae'r rhain yn cynnwys llythyrau'n cyrraedd yn hwyr neu ddim o gwbl, atgyfeiriadau neu asesiadau'n cael eu gohirio, apwyntiadau'n newid yn annisgwyl, cyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau, pobl yn gorfod adrodd eu stori dro ar ôl tro, neu ddiffyg parhad yn y gofal, y cymorth a'r perthnasoedd sy'n bwysig iddynt.

Er y gall y materion hyn ymddangos yn weinyddol, gallant gael effaith sylweddol ar hyder, llesiant a gallu pobl i gael mynediad at ofal. Gallant hefyd waethygu anghydraddoldebau, yn enwedig pan fo gan bobl lai o gapasiti, cymorth neu adnoddau i lywio systemau cymhleth.

Wrth i wasanaethau ddod yn fwy integredig, rhanbarthol ac arbenigol, gallai'r Pwyllgor archwilio a yw atebolrwydd wedi cadw i fyny â'r newidiadau yn y ffordd y trefnir gofal: pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb pan fydd taith gofal unigolyn yn croesi sawl sefydliad, a phwy sy'n atebol am y profiad a'r canlyniad cyffredinol?

Credwn hefyd y dylai'r Pwyllgor archwilio a yw'r materion sy'n bwysicaf i bobl yn ddigon gweladwy o fewn trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac a yw trefniadau sicrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn rhoi sylw priodol i gwynion, eiriolaeth a deallusrwydd profiad bywyd ochr yn ochr â pherfformiad, diogelwch, cyllid a gwybodaeth weithredol.

Prawf defnyddiol ar gyfer craffu yw nid yn unig a all sefydliad ddangos bod cam gwella wedi'i gwblhau, ond a oes tystiolaeth bod pobl yn gallu teimlo'r gwahaniaeth.

## Deall profiadau pobl o ofal cymdeithasol

Rydym yn croesawu ffocws y Pwyllgor ar ofal cymdeithasol, gofalwyr di-dâl a'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

Cwestiwn allweddol i'r Pwyllgor yw a yw Cymru yn deall profiadau pobl o ran gofal cymdeithasol gyda'r un dyfnder, gwelededd a chraffu ag o ran iechyd.

Mae pobl yn dweud wrthym yn aml y gall fod yn anodd deall sut i gael mynediad at gymorth gofal cymdeithasol, pa gymorth sydd ar gael, sut y gwneir penderfyniadau a ble i fynd am wybodaeth, cyngor a chymorth.

Mae heriau sylweddol yn aml yn digwydd yn ystod rhai o gyfnodau mwyaf bregus bywyd pobl, yn enwedig ar y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol o ran asesu, rhyddhau a chymorth parhaus.

Byddem yn annog y Pwyllgor i ganolbwyntio nid yn unig ar argaeledd gofal a chymorth, ond ar brofiadau pobl o gael mynediad at ofal cymdeithasol a'i lywio, ac a yw trefniadau adrodd, deallusrwydd a chraffu cenedlaethol yn rhoi darlun digon clir o'r profiadau hynny.

Wrth i'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ddatblygu, dylai craffu brofi a yw diwygio'n arwain at welliannau y gall pobl eu hadnabod a'u teimlo: mynediad haws, gwybodaeth gliriach, hawliau a hawliadau mwy cyson, gwell cydlynu ac ymatebolrwydd uwch i'r hyn sy'n bwysig iddynt.

## Defnyddio cwynion, eiriolaeth, newid gwasanaethau a phrofiad byw fel deallusrwydd

Drwy waith eiriolaeth cwynion, ymgysylltu, sylwadau a deallusrwydd rhanbarthol, rydym yn aml yn gweld yr un materion yn codi drwy lwybrau gwahanol.

Mae cyflwyno Gwrando ar Bobl ym mis Ebrill 2026 yn darparu cyfle i archwilio nid yn unig a yw pryderon unigol y GIG yn cael eu datrys yn effeithiol, ond hefyd sut y caiff deallusrwydd o gwynion ac eiriolaeth ei gasglu, ei rannu a'i ddefnyddio i nodi risgiau sy'n datblygu, materion ailadroddus a chyfleoedd ar gyfer gwelliant ehangach.

Mae'r materion sy'n ymwneud â gwasanaethau mamolaeth ac amenedigol yn dangos gwerth dod â phrofiad byw, cwynion, eiriolaeth, arolygu a gwybodaeth perfformiad at ei gilydd.

Dylai'r Pwyllgor ystyried sut y caiff themâu ailadroddus eu nodi a'u gweithredu, a sut mae sefydliadau'n dangos bod dysgu wedi newid ymarfer a phrofiad pobl hefyd.

## Newidiadau i wasanaethau

Rydym yn debygol o weld newidiadau mawr yn y ffordd y darperir gwasanaethau yn ystod y Seithfed Senedd. Wrth i wasanaethau ddod yn fwy rhanbarthol, arbenigol a'u comisiynu ar draws ffiniau sefydliadol, dylai'r Pwyllgor archwilio a yw pobl yn cael eu cynnwys yn ddigon cynnar i ddylanwadu ar benderfyniadau, sut mae sefydliadau'n dangos effaith safbwyntiau pobl, ac a yw'r buddion arfaethedig yn cael eu profi'n ddiweddarach gan bobl a chymunedau.

Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried a yw newid gwasanaethau'n effeithio'n gyfartal ar bob cymuned, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog, cymunedau gwledig, neu leoedd lle mae teithio, trafnidiaeth a daearyddiaeth yn creu rhwystrau ychwanegol.

Ni ddylai craffu ddod i ben unwaith y bydd penderfyniad newid gwasanaeth wedi'i wneud. Dylid gwerthuso newidiadau sylweddol yn erbyn y buddion a gyflwynwyd yn wreiddiol i bobl a chymunedau, gan gynnwys eu heffaith ar fynediad, anghydraddoldebau a phrofiadau pobl.

## Cadw plant a phobl ifanc yn weladwy

Mae gan lawer o flaenoriaethau arfaethedig y Pwyllgor arwyddocâd penodol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys amseroedd aros, cymorth iechyd meddwl, atal, pwysau iach, fepio a heriau iechyd cyhoeddus ehangach.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn cryfhau'r achos dros wneud iechyd plant yn flaenoriaeth benodol a chynaliadwy yn ystod y Seithfed Senedd. Mae tueddiadau pryderus ar draws ystod o ddangosyddion yng Nghymru wedi'u nodi, gan atgyfnerthu'r achos dros Gynllun Iechyd Plant cynhwysfawr.

Byddem yn annog y Pwyllgor i sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc yn parhau'n weladwy drwy gydol ei waith, yn hytrach na chael eu hystyried drwy drafodaethau gwasanaeth-benodol yn unig.

Mae amseroedd aros, cymorth iechyd meddwl, atal, pwysau iach, fepio a heriau iechyd cyhoeddus ehangach i gyd yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc. Gall oedi mewn asesu, triniaeth a chymorth cael canlyniadau ar ddatblygiad, addysg, bywyd teuluol a chanlyniadau'r dyfodol yn ogystal ag iechyd uniongyrchol.

Mae heriau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, cymorth niwroddatblygiadol a gwasanaethau arbenigol eraill, darpariaeth mewn lleoliadau addysgol a throsglwyddiadau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion hefyd yn aml yn croesi ffiniau sefydliadol.

Dylai'r Pwyllgor archwilio pa mor effeithiol y mae iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd a’u hanghenion yn ymestyn dros y ffiniau hynny, ac a yw eu profiadau a'u canlyniadau yn ddigon gweladwy yn y dystiolaeth a ddefnyddir i asesu gwasanaethau.

## Lens Egwyddorion y Bobl ar gyfer y Seithfed Senedd

Drwy ein sgwrs genedlaethol gyda miloedd o bobl ledled Cymru, clywsom ddisgrifiad hynod gyson o'r hyn sydd bwysicaf i bobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:

- mynediad sy'n gweithio i bawb;
- urddas a pharch bob tro;
- cyfathrebu clir a gonest;
- gofal cydgysylltiedig sy'n teimlo'n ddi-dor;
- gofal a chymorth amserol wrth aros;
- gofal sy'n adnabod ac yn ymateb i'r person cyfan;
- gofal a chymorth sy'n galluogi annibyniaeth; a
- gwasanaethau cynhwysol, hygyrch a theg sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u hatgyfnerthu.

Dylai'r Egwyddorion hyn gan y Bobl ddarparu lens gref a chyson o brofiad dinasyddion ar gyfer gwaith y Pwyllgor yn ystod y Seithfed Senedd.

Ochr yn ochr â chraffu ar bolisi, perfformiad, cyllid, ansawdd a darpariaeth, maent yn darparu prawf syml ond pwysig:

## A yw pobl yn profi iechyd a gofal cymdeithasol yn y ffordd y maent wedi dweud wrthym sydd bwysicaf iddynt?

Byddai hyn yn helpu'r Pwyllgor i graffu nid yn unig ar a yw systemau a sefydliadau'n nodi’r gwelliant, ond hefyd a yw'r gwelliant hwnnw'n weladwy ym mywydau pobl.

Mae gwaith da yn digwydd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gall profiadau pobl wneud y gwaith hwnnw'n gryfach drwy

helpu i nodi lle mae gwelliant yn cael ei deimlo, lle mae rhwystrau'n parhau a lle mae angen craffu pellach ar faterion systemig.

Byddai Llais yn croesawu'r cyfle i gefnogi'r Pwyllgor drwy gydol ei waith drwy rannu deallusrwydd a geir o fewnwelediadau rhanbarthol a Chymru gyfan.

**11 Medi 2026**